Dewi Tomos

Gyda thristwch y clywyd am farwolaeth Dewi Tomos, a fu'n asgwrn cefn i Ganolfan Treftadaeth Cae'r Gors o'r cychwyn cyntaf.

Pan ddaeth o Lerpwl i Rostryfan ganol y Saithdegau, gwnaeth ei gartref yn Gwelfor, ac ni symudodd y teulu oddi yno. Yno y magwyd 3 plentyn Dewi a Mair - Gwydion, Rhiannon a Gwenllian.

Adref oedd Carmel a'r cyffiniau i Dewi. Gwyddai am bob bryncyn a chwarel yn y cyffiniau, bob ty a phob tylwyth. Pan gychwynnodd Guto Roberts ac Eirug Wyn godi arian i sefydlu Cyfeillion Cae'r Gors, roedd Dewi ymysg y cyntaf i wirfoddoli.

Gwasanaethodd y fenter am dros ugain mlynedd, gan fod yn Gadeirydd yn ystod y blynyddoedd olaf. Nid oedd pall ar ei sêl a'i frwdfrydedd. Byddai yn arwain criwiau o blant ar hyd y Lôn Wen, gan ddysgu iddynt enwau blodau a thyfiant, gan agor eu llygaid i'w treftadaeth gyfoethog, a rhoi hanes bywyd ers talwm iddynt, yn enwedig hanes y chwarelwyr. Roedd hyn I gyd yn fyw i Dewi, ac ysai am drosglwyddo ei wybodaeth a'i frwdfrydedd i'r genhedlaeth iau.

Ar gyfer yr oedolion, ysgrifennodd gnwd o lyfrau, ac mae'n dda meddwl fod y rhain yn aros, ac yn dysteb iddo. Yn ogystal â hyn, byddai bob amser ar gael i bicio heibio i'r Ganolfan, i roi gweithwyr ar ben ffordd, i wneud cyfweliadau teledu, i drafod manylion ac i sôn am y gwaith wrth bwy bynnag oedd eisiau gwybod.

Dylai brwdfrydedd Dewi fod yn symbyliad inni i gyd gario mlaen, ond teimlwn, serch hynny, ein bod wedi colli un o'r selocaf yn ein mysg.